Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Diwygio y Polisi Amaethyddol Cyffredin

Sgwrs am y ffordd ymlaen yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **19/12/2011**
Ymatebion erbyn: **31/03/2012**

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn holi eich barn am ystod o faterion sy'n gysylltiedig â'r cynigion drafft i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar 12 Hydref 2011, gan gynnwys rhai casgliadau cychwynnol a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru.

Sut i ymateb

Llenwch yr holiadur ar gefn y ddogfen a'i e-bostio/bostio at y manylion cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae memorandwm cefndirol manwl yn cynnwys eglurhad o brif elfennau cynigion diwygio PAC wedi'i baratoi gan y CE ac mae ar gael ar y ddolen ganlynol:
http://europa.eu/rapid/pressReleaseAction.do?reference=MEMO/11/685

Mae'r cynigion deddfwriaethol eu hunain, yn ogystal ag asesiad effaith ledled yr UE a dogfennau perthnasol eraill, ar gael ar safle rhyngrwyd yr CE ar: http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/legal-proposals/index en.htm

Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi gyfeirio at gynigion deddfwriaethol y CE wrth ystyried eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Noder bod agweddau ar y cynigion sy'n parhau'n ansicr o ran bwriad ac effaith gwirioneddol. Am y rheswm hwn, mae'n rhaid darllen y safbwyntiau sy'n cael eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun y dealltwriaeth presennol ohono o ran ystyr ac effaith.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Carol Driver:

Cyfeiriad: Is-adran Polisi Cefn Gwlad
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf, Adain y Gorllewin, CP2
Adeiladau'r Goron
Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: capreform@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 029 2082 6102

Diogelu

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch

Data inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Y Rhagair

Mae'r PAC – taliadau uniongyrchol i ffermwyr a'r cymorth economaidd ac amgylcheddol ehangach o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru – yn chwarae rhan allweddol i gynnal hyfywedd ffermio yng Nghymru a chydlyniant economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Gymru wledig. Rwyf am ddefnyddio'r broses hon i gynnal trafodaeth ddeallus ar sut y gallwn sicrhau manteision ystyrlawn o ganlyniad i ddiwygio'r PAC i fodloni anghenion Cymru. Y bwriad yw i'r broses hon fod yn un broses barhaus. Nid wyf am i bobl ystyried hon yn broses untro; yn hytrach, rwy'n ceisio ysgogi a chynnal sgwrs dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Yr ymateb cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yw y byddai cynigion y CE yn llwyfan eang i lunio manylion y PAC fydd yn gweithredu o 2014. Nid yw hyn yn golygu y gall Llywodraeth Cymru gefnogi popeth sydd wedi'i gynnig. Wrth ddelio â'r PAC, mae profiad yn awgrymu ei fod yn bwysig i ddeall y manylion. Fe wyddom na fydd llawer o'r manylion gweithredol yn hysbys tan i'r CE gyhoeddi'r Rheoliadau Gweithredu drafft. Daw'r rhain rhywbryd yn ystod misoedd cyntaf 2012.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, rwy'n falch bod y CE yn bwriadu cadw'r strwythur dwy golofn presennol ar gyfer y PAC. Rwy'n cefnogi'n llawn gyfiawnhad y CE am daliadau uniongyrchol o dan y PAC wrth ddarparu cymhorthdal incwm i ffermwyr, i helpu gyda chynhyrchu bwyd a galluogi ffermwyr i sicrhau canlyniadau amgylcheddol.

Ar ddatblygu gwledig, y prif fater fydd sicrhau bod Cymru, a'r DU, yn cael cyfran fwy o gyllid y CE na'r hyn y mae'n ei gael ar hyn o bryd. O ran y cynigion eu hunain, rydym yn croesawu'r ffaith bod y gofyniadau haearnaidd presennol o ran ble i wario'r cyllid wedi eu dileu. O ran Cymru, mae'n rhaid inni gydnabod bod cefnogi gweithgareddau rheoli tir ar y fferm yn flaenoriaeth – a bydd yn parhau felly ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig dilynol Cymru 2014-2020.

Pan fydd y pecyn terfynol ar gyfer diwygio PAC wedi ei benderfynu, Llywodraeth Cymru fydd i benderfynu sut y dylid gweithredu'r diwygiadau yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r cwestiynau yr wyf wedi'u cyflwyno yn y sgwrs hon – yn ogystal ag unrhyw sylwadau yr hoffech eu hychwanegu.

Alun Davies,
Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.

Ble mae'r prif broblemau?

Ar 12 Hydref, cyhoeddodd y CE Reoliadau drafft i ddiwygio'r PAC ymhellach, fydd, wedi cytuno arnynt, yn cael eu gweithredu ar 1 Ionawr 2014. Bydd y cynigion sydd ynghlwm yn y broses ddiwygio yn cael eu gweithredu ar 1

Ionawr 2014. Mae cynigion y diwygio yn cynnwys y drefn o daliadau uniongyrchol i ffermwyr, a datblygu gwledig ar gyfer 2014-2020.

Daw y cynigion gyda rheoliadau gweithredu sydd i'w cyhoeddi ar ddechrau 2012. Bydd rhain yn rhoi mwy o fanylion am y cynigion.

Bydd yn rhaid i'r pecyn terfynol ar gyfer y PAC fod yn benderfyniad ar y cyd rhwng Gweinidogion Amaethyddiaeth a Physgodfeydd Cyngor yr UE a Senedd Ewrop. Mae'r CE yn anelu at sicrhau cytundeb gwleidyddol cyffredinol erbyn diwedd 2012 fydd i'w weithredu o'r 1 Ionawr 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan lawn i helpu i lunio safbwynt trafod y DU ar draws ystod llawn pecyn diwygio PAC, yn ogystal â bod yn bresennol ar gyfer y prif drafodaethau sydd eisoes wedi dechrau ar lefel yr UE.

Pam ydy ni'n gofyn am eich barn?

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod y grwpiau niferus sydd â diddordeb yn nyfodol y PAC, o ffermio, cefn gwlad neu grwpiau ehangach ledled Cymru yn gallu cysylltu i helpu i lywio'r safbwyntiau manwl sydd angen eu mabwysiadu ar y cynigion o safbwynt Cymru. Bydd eich ymatebion yn gyfraniad gwerthfawr i'r broses honno.

Mae Gweinyddiaethau eraill y DU sy'n cynnwys Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynnal ymarferion tebyg.

Pam mae pethau'n newid?

Daw trefn bresennol y CAP i ben yn 2013. Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd y CE gynigion polisi ar lefel uchel ar gyfer cynnwys PAC 2014 – 2020, gydag ymgynghoriad i ddilyn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad sefyllfa yn ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.

Cyhoeddodd y CE ddeddfwriaeth ddrafft ar 12 Hydref 2011 yn amlinellu rhywfaint o'r manylion ar gyfer diwygio'r PAC yn y dyfodol.

Goblygiadau y cynigion

O dan drefn bresennol y PAC, bydd oddeutu £260 miliwn ar gael bob blwyddyn ar ffurf taliadau uniongyrchol i ffermwyr. Hefyd, o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, caiff oddeutu £110 miliwn ei fuddsoddi yn flynyddol yn y Gymru wledig.

Mae gan gynigion y CE rai goblygiadau o bwys i Gymru. Dyma'r prif elfennau:

Taliadau Uniongyrchol

- Daw y Cynllun Taliad Sengl i ben yn 2013, ac o 2014, caiff ei alw yn Daliad Uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol a thaliad Gwyrdd. Bydd taliad gorfodol "ychwanegol" i ffermwyr ifanc a chymorth yn ôl disgresiwn mewn ardaloedd o "gyfyngiadau naturiol" yn ogystal â darpariaeth benodol ar gyfer taliadau cysylltiedig, a byddai pob

un ohonynt yn cael eu hariannu'n effeithiol trwy ddidyniadau o daliad uniongyrchol. Mae opsiwn hefyd i ffermwyr ymuno â chynllun y Ffermwyr Bach, waeth pa ardal sy'n cael ei ffermio.

- Maen prawf allweddol i reoli gwerth taliadau unigol o 2014 fydd y swm sy'n cael ei ddyranu i Gymru, a elwir yn gyffredinol yn derfyn ariannol uchaf Cymru. Mae penderfyniad terfynol ar y gyllideb PAC cyffredinol a therfyn ariannol uchaf Cymru yn amodol ar gytuno ar gyllideb gyffredinol yr UE ar gyfer 2014-2020.

Cynllun y Taliad Sylfaenol

- Dim ond ffermwyr a dderbyniodd y Taliad Sengl yn ystod 2011 trwy ddefnyddio o leiaf un hawl i daliad fydd yn gymwys i dderbyn taliad yn 2014, ar wahân i achosion ble y caiff hawl 2014 ei ddyrannu o dan y Gronfa Genedlaethol neu drwy broses contract preifat.

- Hefyd, mae'r Rheoliadau drafft yn cynnig bod nifer yr hawliadau sy'n cael eu dyrannu yn 2014 yn cyfateb â nifer yr hectarau cymwys sydd wedi'u datgan ar gyfer 2014.

Beth yw eich barn am 2011 fel blwyddyn gyfeirio arfaethedig y Comisiwn?

Pa elfennau diogelwch y gellid eu hystyried i osgoi "bancio tir" posib cyn 2014?

- Bydd yn rhaid i Gymru newid o'r Cynllun Taliad Sengl hanesyddol presennol yn 2014 a chyrraedd taliadau sydd 100% yn seiliedig ar arwynebedd – a chyfradd unffurf – erbyn 2019. Mae'r Rheoliad drafft yn pennu cyfnod pontio o 5 mlynedd.

- Barn Llywodraeth Cymru yw nad yw y cyfnod pontio 5 mlynedd yn cydnabod yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r newid i daliadau arwynebedd ac yn hollol annigonol i ganiatàu i ffermwyr wneud y newidiadau angenrheidiol i'w ffermydd. Fel lleiafswm, byddai'r Llywodraeth yn cynnig cyfnod pontio o 7 mlynedd; y sefyllfa ddelfrydol fyddai 10 mlynedd.

- Byddai'r cynigion yn caniatàu taliadau arwynebedd newidiol ledled Cymru o 2014, ar yr amod bod cyfradd unffurf yn cael ei chyrraedd yn 2019. Mae'n cael ei gydnabod y gallai bandiau taliadau arwynebedd newidiol o 2014 fod yn ddull o hwyluso yr hyn a allai fel arall fod yn sefyllfa o ail-ddosbarthu derbyniadau o dan y Cynllun Taliad Sengl presennol yn sylweddol. Byddai mynd ymlaen â chyfraddau mor amrywiol yn golygu cost i Lywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar y profiad o gyflwyno'r Cynllun Taliad Sengl yn 2005, mae'r amcangyfrifon cychwynnol yn nodi bod angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi £10 miliwn o'i hadnoddau ei hun i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith TGCh i ddarparu'r drefn daliadau newydd yn 2014. Mae'r gost hon yn cymeryd yn ganiatàol ein bod yn defnyddio cyfradd dalu unffurf o 2014. Bydd taliadau amrywiol/gwahanol yn ychwanegu at gostau datblygu'r TGCh, ac yn golygu y byddai'r gwaith

gweinyddol, dilysu ac archwilio yn fwy cymhleth. Mae'n bosib y byddai'r olaf yn arwain at oblygiadau o ran y gallu i ryddhau taliadau sylweddol o'r 1 Rhagfyr bob blwyddyn.

Beth yw eich barn am y math o daliad; a fyddech yn dewis cyfraddau unffurf neu gyfraddau talu gwahaniaethol, ac allwch chi roi rhesymau dros hyn?

Pe byddai cyfnod pontio o 7 mlynedd yn cael ei sicrhau, pa reswm/rhesymau fyddech chi'n eu rhoi i gefnogi taliadau gwahaniaethol a allai olygu bod derbyniadau yn cael eu rhyddhau yn hwyrach na'r cyfnod talu 1 Rhagfyr – 30 Mehefin fel ar hyn o bryd?

- O 2104 byddai'r Rheoliadau drafft yn caniatàu hollt gorfodol o 40 y cant yn seiliedig ar arwynebedd a 60 y cant o daliadau yn seiliedig ar elfennau hanesyddol fel y cam cyntaf tuag at daliadau arwynebedd o 100 y cant yn 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso am hyblygrwydd wrth benderfynu ar gyflymder y newid i daliadau arwynebedd llawn yn 2019 (neu'n hwyrach) er mwyn lleihau effaith y newid.

- Mae gwaith modelu wedi dangos y bydd oddeutu 30 y cant o ffermydd yn ennill 50 y cant yn fwy na'u derbynebau Cynllun Taliad Sengl presennol, er y bydd nifer sylweddol yn colli 30 y cant o leiaf. Mae'r posibiliadau o ran effaith yr ailddosbarthu yn cael eu trafod isod:

Ffigur 1 – Dosbarthu taliadau yn dilyn y symud i daliadau yn seiliedig ar arwynebedd:

Share farms in an entitlement band by change from historical to a flat rate payment – Rhannu ffermydd mewn band hawlio yn ôl y newid o daliad hanesyddol i daliad cyfradd unffurf

Share farms in an entitlement band by change from historical to a flat rate payment



Entitlement on a farm	Percentage change: Loss at least 30%	Loss 10% to 30%	Within 10%	Gain 10% to 30%	Gain over 30%	**All farms (=100%)**
Less than €1,000	4%	4%	7%	8%	77%	**1,533**
€1,000 - €5,000	6%	9%	13%	13%	59%	**3,751**
€5,000 - €10,000	8%	14%	20%	15%	42%	**2,341**
€10,000 - €25,000	16%	26%	21%	14%	23%	**4,175**
€25,000 - €50,000	29%	28%	19%	10%	14%	**3,009**
At least €50,000	42%	25%	12%	8%	12%	**1,572**
All farms	**16%**	**19%**	**17%**	**12%**	**37%**	**16,381**

Yn gyffredinol, ychydig o ffermydd sy'n aros o fewn 10 y cant o'u derbynebau SPS presennol. Mae tueddiad cryf i hawlwyr llai ennill a hawlwyr mwy golli. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos bod amrywiaeth mawr o fewn y patrwm cyffredinol hwn. Ar gyfer pob band maint, mae rhai ffermydd yn cwympo o fewn pob un o'r bandiau newid.

Ffigur 2 – Sut y bydd y newid i daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd yn cael effaith ar bob sector fferm.

Share of farms by farm type and change from historical to flat rate - Rhannu fferm yn ôl math o fferm a newid o gyfradd hanesyddol i gyfradd unffurf

Share of farms by farm type and change from historical to a flat rate



Farm type	Change from historic to flat rate: Loss at least 30%	Loss 10% to 30%	Within 10%	Gain 10% to 30%	Gain at least 30%	All farms (=100%)
Larger - dairy	49%	26%	14%	6%	5%	**1,511**
Larger - cattle/sheep	18%	30%	19%	12%	20%	**1,704**
Larger - others	24%	33%	21%	9%	13%	**620**
Small - sheep	7%	14%	18%	16%	45%	**1,966**
Small - others	17%	23%	19%	12%	28%	**3,692**
Very small	8%	11%	13%	12%	56%	**4,604**
Others	13%	13%	16%	12%	45%	**1,403**
All Farms	**16%**	**19%**	**17%**	**12%**	**36%**	**15,500**

Bydd bron i hanner y ffermydd llaeth mawr yn colli o leiaf 30 y cant o'u derbynebau presennol. Mae'r ffermydd hyn yn tueddu i gael gwerthoedd hawlio cymharol fawr ar hyn o bryd fesul hectar, felly nid yn unig bydd eu gwerth hawlio yn fawr, bydd eu gwerth absoliwt (ariannol) yn fawr hefyd. Mewn cyferbyniad, mae'r ffermydd bach iawn yn tueddu i fod â hawliadau llai, ac felly, er eu bod yn ennill swm cymharol fawr, bydd cyfyngu ar y cynnydd ariannol. Goblygiadau ymarferol hyn yw y bydd nifer fawr o ffermydd yn ennill symiau bychain o arian ac y bydd hyn yn cael ei dalu gan nifer fechan o ffermydd sy'n colli swm fwy.

Yr hyn sy'n bwysig, ym mhob math o fferm, yw bod ffermydd sy'n syrthio i bob band newid, ac felly byddai effeithiau'r system dalu cyfradd unffurf yn cael eu gweld ym mhob sector amaethyddol.

Beth yw eich barn am 40 y cant cyntaf y taliad sy'n seiliedig ar arwynebedd ym mlwyddyn un (2014) y trefniant pontio? Pa reswm/resymau fyddech chi'n ei roi dros bwynt dechrau is, a beth fyddech chi'n ei gynnig fel dewis arall ar gyfer newid grisiol i'r taliad arwynebedd i gyrraedd 100 y cant yn 2019?

Capio

- Bydd y taliad sylfaenol yn cael ei gapio. Bydd hyn yn berthnasol ble bo'r hawliad dros €150,000 ac yna'n cael ei dynnu'n ôl yn raddol fel nad oes modd hawlio mwy na €300,000. Yn ymarferol, byddai'r taliad mwyaf yn cael ei gyfyngu i €235,000 a gellir lliniaru'r effaith i'r fath fodd fel nad yw y cyflogau sy'n cael eu talu gan fusnesau, er yn gontractwyr, staff dros dro neu staff tymhorol, yn cael eu cynnwys, ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yng Nghymru.

- Ychydig o effaith y mae'n debygol o'i gael yng Nghymru. Mae amcangyfrifon cynnar yn nodi, erbyn 2019, pan fydd angen i Gymru wneud taliadau llawn yn seiliedig ar arwynebedd, y bydd yn effeithio ar 18 fferm (0.1 y cant o bob fferm), i gyfanswm gwerth o €1.2 miliwn.

- Er ein bod yn amcangyfrif mai ychydig o effaith a gaiff ar Gymru, bydd yn cael effaith ar y mentrau ffermio. Mae effaith mwy sylweddol hefyd mewn mannau eraill yn y DU, ac egwyddor waelodol bwysig fod cynnig y CE yn ymddangos fel rhwystr artiffisial nad yw'n gyson â chaniatâu i fusnesau ffermio dyfu mewn ffordd sy'n ymateb i arwyddion y farchnad a thueddiadau cwsmeriaid.

Beth yw eich barn chi ar y cynigion capio. Pam fyddech chi'n cefnogi neu yn gwrthwynebu hyn?

Yr Elfen 'Werdd'

- Er mwyn bod yn gymwys am y taliad gwyrdd, mae'n rhaid i ffermwyr dderbyn y taliad sylfaenol a dilyn y tri arfer (y cylchdro cnydau, porfa barhaol ac ardal â ffocws ecolegol) sy'n berthnasol iddynt hwy. Er bod angen egluro'r broses o ddrafftio'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn deall y byddai methu â bodloni'r gofyniad gwyrdd yn golygu methu â sicrhau elfen y taliad sylfaenol.

- Bydd y taliad Gwyrdd yn cael ei osod ar 30 y cant o derfyn uchaf ariannol Cymru. O dan y cynnig, byddai tir organig yn gymwys am daliad Gwyrdd yn awtomatig. Hoffai Cymru ymestyn y ddarpariaeth awtomatig hon i gynnwys pob ffermwr sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd amaeth-amgylchedd cydnabyddedig megis Glastir.

- Nid yw'n bosib asesu effaith y cynigion gwyrdd yn llawn tan i'r CE sicrhau bod y rheoliadau gweithredu drafft ar gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad na fydd unrhyw ffermwr dan anfantais oherwydd eu bod yn aelodau o Glastir, pan fydd y broses o ddiwygio'r PAC wedi ei gwblhau. Byddai gan ffermwyr o'r fath yr opsiwn i dynnu allan o gynllun Glastir.

Beth yw eich barn am gynigion presennol yr elfen 'werdd'?

Pa hyblygrwydd sydd ei angen i sicrhau nad yw'r cynigion gwyrdd yn cael effaith ar gynhyrchu bwyd tra'n diogelu'r amgylchedd?

Beth fyddech chi'n ei gynnig fel dewis arall i gynigion y CE?

Y Gronfa Genedlaethol

- Byddai'r Gronfa Genedlaethol yn cael ei hariannu trwy ddidynu hyd at 3 y cant o'r terfyn ariannol uchaf sy'n berthnasol i elfen y taliad sylfaenol. Mae'r cynigion yn rhoi blaenoriaeth i ffermwyr newydd.

Pa resymau fyddech chi'n eu cynnig i ymestyn y flaenoriaeth y tu hwnt i ffermwyr ifanc?

Cynllun Ffermwyr Bychain
Gallai unrhyw ffermwr sy'n hawlio cymorth yn 2014 benderfynu erbyn Hydref 15, 2014 i gymeryd rhan yn y Cynllun Ffermwyr Bychain a thrwy hynny dderbyn taliad blynyddol sydd wedi'i bennu gan yr Aelod Wladwriaeth o rhwng €500 a €1000, waeth beth yw maint y fferm (bydd y ffigwr naill ai'n gysylltiedig â'r taliad ar gyfartaledd fesul buddiolwr, neu'r taliad cenedlaethol ar gyfartaledd fesul hectar am 3 ha). Byddai hyn yn symleiddio pethau i'r ffermwr gan y byddai'n wynebu gofynion llai llym o ran traws-gydymffurfio ac yn cael ei eithrio o'r elfen werdd.

Beth yw eich barn ar y cynigion i gyflwyno Cynllun Ffermwyr Bychain? A oes unrhyw hyblygrwydd ychwanegol yr hoffech eu gweld sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn?

Cymorth Cysylltiedig (Amlen Genedlaethol)

- Gellir defnyddio Cymorth Cysylltiedig i roi cymorth ychwanegol mewn amgylchiadau penodol. Ar hyn o bryd nid yw Cymru'n gweithredu cynllun Cymorth Cysylltiedig ac o fewn y DU, dim ond yr Alban sy'n ei ddefnyddio ar gyfer ei Chynllun Llo Eidion yr Alban. Bydd y cyllid ar gyfer hwn yn cael ei gymeryd o Derfyn Ariannol Cenedlaethol y DU (hyd at 5%). Barn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw y byddai'r ddarpariaeth yn ddefnyddiol o bosib yn y sectorau llaeth/eidion dwys.

Beth yw eich barn am ddefnyddio y cynllun Amlen Genedlaethol i gynorthwyo'r sectorau sy'n colli arian yn y newid i daliadau arwynebedd. Os ydym i gymeryd y bydd y cyllid sydd ar gael i Gymru yn cael ei osod ar 5 y cant o derfyn ariannol uchaf Cymru, sut fyddai modd trefnu hyn?

Hyblygrwydd rhwng Colofnau
- Gall Aelod Wladwriaethau drosglwyddo hyd at 10 y cant o'u terfynau uchaf blynyddol i gefnogi gweithgareddau datblygu gwledig sy'n cael eu darparu o dan Golofn 2. O dan y cynllun datblygu gwledig presennol (2006-2013) roedd y ffigur cyfatebol (trwy wahanol ddulliau o fodiwleiddio) oddeutu 9% y flwyddyn, ar gyfartaledd.

- Byddai gan nifer o'r Aelod Wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yr hawl i drosglwyddo hyd at 5% o'r cyllid Ewropeaidd sy'n cael ei ddarparu ar gyfer gweithgareddau y Cynllun Datblygu Gwledig (ar hyn o bryd mae cyllid yr UE yn oddeutu £1.4 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd).

- Pryder mawr i Gymru fydd sicrhau bod hyblygrwydd o'r fath yn wirfoddol ac y gellir ei ddefnyddio'n rhanbarthol yn hytrach nac yn y DU.

- Byddai'n ymddangos bod y dulliau hyn o symud cyllid rhwng Pileri PAC yn ffordd o ddisodli'r system fodiwleiddio bresennol.

- Mae modiwleiddio yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgaredd y Cynllun Datblygu Gwledig, cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn bennaf, fel ymateb uniongyrchol i'r cyllid anghyflawn sydd ar gael gan y CE. Nod allweddol ar gyfer trafod yng Nghymru (a'r DU) fyddai i sicrhau cyfran fwy o gyllid y CE ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig dilynol Cymru.

Am ba reswm fyddech chi'n cefnogi/gwrthwynebu y gallu i symud cyllid y CE fel a gynigwyd?

Ffermwr Actif

- Mae'r diffiniad o Ffermwr Actif wedi ei newid. Ni fydd taliadau'n cael eu gwneud pan fydd y symiau blynyddol o daliadau uniongyrchol yn llai na 5 y cant o gyfanswm y derbyniadau a gawsant hwy (ffermwyr) o weithgareddau nad ydynt yn amaethyddol yn y flwyddyn ariannol fwyaf diweddar; neu ble nad ydynt yn gallu dangos eu bod wedi cynnal y lefel ofynnol o weithgarwch amaethyddol. Bydd hyn yn anodd i'w weinyddu ac rydym yn modelu i benderfynu sut y bydd hyn yn effeithio ar Gymru.

Beth ydych chi'n ei ystyried yn ddiffiniad addas ar gyfer ffermwr actif?

A fyddech yn cefnogi diffiniad sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chynhyrchu a rheoli tir yn actif?

Cyfyngiadau Naturiol

- Mae hyn yn caniatàu taliad ychwanegol yn ôl disgresiwn i ffermwyr mewn ardaloedd o gyfyngiadau naturiol. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae'r cynnig yn galw ar yr Aelod Wladwriaeth i ddiffinio cyfyngu naturiol. Yn unol â'n dull yn gyffredinol, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw ddiffiniadau o'r fath ar gyfer Cymru.

- Ni ddylid drysu'r ddarpariaeth hon gyda'r pŵer yn ôl disgresiwn i ddarparu cymorth i Ardaloedd Llai Ffafriol. Byddai hynny'n parhau o dan drefniadau Pilar 2 trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Gwledig.

- Er mwyn cael pethau'n glir, daw cynllun Tir Mynydd i ben yn ystod 2012. Ni fydd cynllun yn ei ddisodli o dan y Cynllun Datblygu Gwledig Cymru dilynol.

- Mae'r CE yn cyfeirio at daliad am 'gyfyngiadau naturiol' o fewn y Taliad Uniongyrchol arfaethedig. Nid yw'n bosib edrych ar hyn fel ffordd o roi taliad ychwanegol i ffermwyr yn yr ALFf a dim byd arall. Mae'r Comisiwn yn disgrifio'r cyfyngiadau natruiol fel taliad ychwanegol ar gyfer ardaloedd ble, er enghraifft, mae'r topograffi a'r newid yn yr hinsawdd yn achosi

anawsterau penodol i ffermio'n economaidd, ond ble y mae gan ffermio o'r fath fanteision amgylcheddol neu'n ffordd o osgoi gadael i dir fynd yn segur. Byddai unrhyw daliad yn cael ei ariannu trwy frigdorri terfyn uchaf gros Taliadau Uniongyrchol y DU. Gallai Gymru ystyried yr opsiwn hwn ar dir sydd wedi'i wella neu ei wella'n rhannol fel marciwr neu anfantais gan nad yw bob rhan o'r tir hwn yn ALFf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'n anodd mapio hyn ac mae'n gymhleth yn weinyddol.

Beth yw eich barn ar y cynigion ar gyfer taliad ychwanegol i gael ei wneud o dan Bilar 1 mewn ardaloedd o Gyfyngiadau Naturiol?

Dyma'r pwyntiau allweddol ar drefn y taliadau uniongyrchol arfaethedig. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw sylwadau neu unrhyw agwedd arall o gynigion y CE nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ddogfen hon.

Pilar 2 – Rheoliadau Datblygu Naturiol

Mae'r Rheoliadau drafft wedi eu llunio'n glir fel y gall y CE fynnu bod Cynlluniau Datblygu Gwledig dilynol (2014-2020) yn canolbwyntio mwy ar ymyrriadau sydd â'r nod o gyflenwi agenda amcanion 'Europa 2020' ar dwf call, cynaliadwy a chynhwysfawr.

Bydd datblygu gwledig yn y dyfodol yn canolbwyntio ar dri amcan allweddol y Comisiwn:

- I ba raddau y mae'r economi wledig (amaethyddiaeth, coedwigaeth a BBaChau gwledig) yn gystadleuol;
- Rheoli adnoddau naturiol a gweithredu ar yr hinsawdd mewn dull gynaliadwy;
- Datblygu ardaloedd gwledig yn diriogaethol ac yn gytbwys

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r dull hwn o weithredu gan ei fod yn ategu nifer o'n polisïau a'n gweithredoedd ein hunain, fel a amlinellwyd yn ein "Rhaglen Lywodraethu" a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae'r cynigion yn rhoi mwy o hyblygrwydd i lunio gweithredoedd sy'n bodloni anghenion y Gymru wledig na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Hefyd, mae llawer o'r anhyblygrwydd ariannol presennol a'r gofyniad am themâu penodol (yr echelau) wedi eu dileu.

Ystyriaeth allweddol i Gymru fydd i ba raddau y gellir defnyddio'r gweithredu yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf i liniaru yr effaith ar y newid o'r Cynllun Taliad Sengl hanesyddol i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd o dan y diwygiadau i Bilar 1 y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.

A yw'r mesurau datblygu gwledig yn y cynigion yn ddigon i fynd i'r afael â blaenoriaethau Cymru yn eich barn chi?

A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau neu fesurau y dylid eu cynnwys mewn rhaglen ddatblygu gwledig yn y dyfodol?

Oherwydd y dosbarthu taliadau yn dilyn y newid o daliadau hanesyddol i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd, a oes unrhyw fesurau lliniaru y gallem eu datlbygu o dan y Cynllun Datblygu Gwledig dilynol?

Mae Cynllun Datblygu Gwledig presennol Cymru yn darparu:

Echel 1 :

Mae **Cyswllt Ffermio,** sy'n cydweithio'n agos â sefydliadau sy'n bartneriaid, yn rhoi cymorth, gwybodaeth, arbenigedd, hyfforddiant a gwasanaethau cynghori un i un, sydd wedi''u teilwra i anghenion ffermwyr. Mae nifer ohonynt yn cael eu hariannu'n llawn, neu'n derbyn cymhorthdal a gall helpu teuluoedd sy'n ffermio i redeg eu busnesau yn fwy effeithiol a diogelu dyfodol eu busnes ffermio.

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Ffermydd** yn helpu busnesau ffermio cymwys i gydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol. Gall y cynllun gynnig ystod o wasanaethau newydd gwell sy'n 'ychwanegu gwerth', sy'n hyblyg ac yn hygyrch. Ein nod yw annog ffermwyr i fod yn arloesol, i gynllunio ymlaen llaw a sicrhau bod eu fferm yn cyrraedd ei photensial yn llawn.

Mae **Cynlluniau Grant Prosesu a Marchnata** yn cynorthwyo busnesau ffermio a choedwigaeth, cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod i ychwanegu gwerth i'w cynnyrch a dod yn arloesol a chystadleuol mewn marchnadoedd byd-eang.

Mae'r **Cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi** wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau, ffermwyr a gweithwyr coedwigaeth i ddod o hyd i farchnadoedd newydd eraill. Y nod allweddol yw rhoi cymorth ariannol i fentrau sy'n canolbwyntio ar y gadwyn gyflenwi gydweithredol a phrosiectau cydweithredol fydd yn datblygu cynnyrch, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.

Beth yw eich barn o gynlluniau presennol Echel 1? Sut y gellid eu gwella?

Mae'r elfen gynghori yn cwmpasu ffermio, bwyd a mentrau gwirfoddol, a ddylid cynnwys hyn o dan y gwasanaeth y mae Cyswllt Ffermio yn ei ddarparu?

Echel 2

Mae hyn yn cynnwys Tir Gofal a Thir Cynnal, cymorth ar gyfer cynnyrch organig a choetiroedd, Tir Mynydd a Glastir. O 2014, yr unig gymorth prif ffrwd fydd ar gyfer cynnyrch organig o dan Glastir (bydd rhywfaint o gynllun Tir Gofal/Tir Cynnal yn parhau).

Echel 3

Nod hwn yw gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a hybu amrywiaeth yr economi wledig. Mae'n gwneud hyn mewn amrywiol ffyrdd.

Mae'r rhain yn cynnwys hybu'r broses o adnewyddu a datblygu pentrefi, annog twristiaeth, cefnogi microfentrau a gwella gwasanaethau gwledig sylfaenol. Mae Echel 3 yn ceisio meithrin treftadaeth wledig, tra hefyd yn rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i'r rhai hynny sy'n cymeryd rhan yn yr economiau gwledig.

Beth yw eich barn am y cynlluniau Echel 3 presennol? Sut y gellid eu gwella?

Echel 4

Mae hyn yn defnyddio'r dull 'LEADER' a bydd yn parhau ar gyfer 2014. Mae'n annog pobl i gymeryd rhan i wella a datblygu eu cymunedau gwledig. Yn benodol, mae Echel 4 yn anelu at greu dulliau newydd arloesol o gynnal datblygiadau hirdymor yng Nghymru.

Beth yw eich barn o gynllun presennol Echel 4? Sut y gellid eu gwella?

A ddylai echelau 3 a 4 fod yn rhan o demplad strategol cyffredinol?

O dan Echel 3 a 4 a ddylem gefnogi llai o brosiectau ond brosiectau mwy o fewn pob GALI (Grŵp Awdurdod Lleol??)

Cwestiynau cyffredinol ychwanegol ar y Diwydiant Amaethyddol yng Nghymru

Beth sydd ei angen arnom i wneud y diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn fwy proffidiol?

Pa fath o ddiwydiant amaethyddol ddylem ei gael yng Nghymru yn y dyfodol?

Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

ebost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, nodwch hwy isod:

Manylion yma:

Mae'n bosib y bydd yr ymateb i'r ymgynghoriadau ar gael i'r cyhoedd – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ticiwch yma: